**Teitl y Swydd:** **Glanhawr**

**Sefydliad:** **Gwella Cymru**

**Yn atebol i'r:** **Swyddog ar Ddyletswydd**

**PRIF BWRPAS/RHESWM DROS Y SWYDD**
Glanhau holl ardaloedd y ganolfan hamdden a sicrhau bod safon uchel o lendid yn cael ei chynnal trwy'r adeilad ac ar yr adegau a nodwyd.

**PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU**

1. Brwsio, ysgubo, mopio, sgwrio a pholisio holl ardaloedd y ganolfan hamdden.

2. Glanhau ystafelloedd newid, toiledau a basnau ymolchi.

3. Tynnu llwch oddi ar ddodrefn, ffitiadau a llestri gwydr a'u polisio.

4. Golchi waliau, drysau ac arwynebau wedi'u paentio.

5. Ail-lenwi rholiau tŷ bach, peiriannau sebon a thyweli llaw ac ati.


6. Gwagio a glanhau biniau sbwriel.

7. Didoli'r sbwriel yn y biniau ailgylchu cywir.

8. Sicrhau bod y dyletswyddau'n cael eu cynnal yn unol â'r ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch berthnasol.

9. Defnyddio offer a deunyddiau glanhau yn y modd rhagnodedig a sicrhau bod offer a deunyddiau glanhau yn cael eu cadw a'u defnyddio'n ddiogel.

**STRWYTHUR SEFYDLIADOL**




**GWYBODAETH A SGILIAU**

| Maes | Hanfodol / Dymunol | Dull Asesu |
|---|---|---|
| - Ymwybyddiaeth o Iechyd a Diogelwch, Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd a Chyfarpar Diogelu Personol | H | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| - Gallu gweithio ar eich liwt eich hun ac mewn tîm; personoliaeth gyfeillgar | H | Ffurflen Gais / Cyfweliad |

| | | |
|---|---|---|
| - NVQ Lefel 2 mewn Glanhau<br><br>- Hyfforddiant Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd<br><br>- Profiad glanhau blaenorol; ymwybyddiaeth o ddefnyddio offer yn ddiogel, technegau glanhau, technegau trin a chodi'n ddiogel | D<br><br>D<br><br><br>D | Ffurflen Gais<br><br>Ffurflen Gais<br><br><br>Ffurflen Gais / Cyfweliad |